

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 03 Medi 2018

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWYBODAETH

CATEGORI: LLYWODRAETHU

Title:
Rhannu gwybodaeth cleifion rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol – datganiad ar y cyd gan Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr a Choleg yr Optometryddion

Dyddiad dod i ben / Adolygu Amherthnasol

I'w weithredu gan:
Fyrddau Iechyd

Camau i'w cymryd erbyn:
Ar unwaith

Anfonwyd gan: David O'Sullivan – y Prif Gyngorydd Iechyd Optometrïg

Enw(au) Cyswllt Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru:
Sarah O'Sullivan-Adams, Pennaeth Cangen Polisi Awdioleg ac Offthalmoleg
y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol ac Arloesi
sarah.osullivan-adams@gov.wales

Dogfen(nau) amgaeedig: amherthnasol

Rhannu gwybodaeth cleifion rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol – datganiad ar y cyd gan Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr a Choleg yr Optometryddion

Ar 20 Mawrth 2015, cyhoeddodd Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr a Choleg yr Optometryddion ddatganiad ar y cyd yn annog offthalmolegwyr i rannu gwybodaeth glinigol â'r optometrydd sydd wedi atgyfeirio'r claf, gweler y datganiad ar y cyd isod.

Dylai byrddau iechyd sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ysbytai yn hybu'r cyfathrebu hwn er mwyn iddo ddod yn arfer safonol ym maes gofal offthalmoleg sydd wedi'i gynllunio ac sydd heb ei gynllunio yng Nghymru.

Datganiad ar y cyd:

Mae gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol hawl i ddisgwyl i'w gwybodaeth bersonol aros yn gyfrinachol. Er hynny, mae pobl hefyd yn disgwyl i weithwyr proffesiynol rannu gwybodaeth ag aelodau eraill o'r tîm gofal. Mae sicrhau bod arferion da ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth, pan fo hynny'n briodol, yr un mor bwysig â chadw cyfrinachedd [1]. Fel gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu rheoleiddio, mae optometryddion yn rhan o'r tîm gofal iechyd, ac felly mae hi fel rheol yn fanteisiol i'r claf pan fydd offthalmolegydd yn rhannu gwybodaeth glinigol â'r optometrydd sydd wedi ei atgyfeirio. Bydd hynny'n gwella gofal cleifion heddiw ac yn y dyfodol, trwy ddarparu adborth defnyddiol am y diagnosis a dulliau o reoli'r cyflwr. Bydd hefyd yn lleihau nifer y profion sy'n cael eu dyblygu, ac o bosibl nifer yr ail-atgyfeiriadau di-angen. Oni bai bod polisi yr ysbyty yn rhoi gwaharddiad penodol ar anfon copiâu o lythyron at optometryddion, dylai offthalmolegwyr anfon copiâu o'r llythyron a anfonir at feddygon teulu at yr optometryddion sydd wedi gwneud yr atgyfeiriad, ar ôl cadarnhau bod y claf wedi cydsynio i hynny. Rhaid i'r cydsyniad gael ei gofnodi yn y nodiadau.

Atgyfeiriadau newydd oddi wrth optometryddion at offthalmolegwyr:

Mae'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau cleifion at offthalmolegwyr yn cael eu gwneud yn y lle cyntaf gan optometryddion. Er mwyn sicrhau dilyniant yn y gofal, yn ogystal ag o ran adborth a chwarteisi proffesiynol, mae'n bwysig bod yr offthalmolegydd yn ymateb i'r optometrydd sydd wedi atgyfeirio'r claf*. Dylid anfon copi at y meddyg teulu y mae'r claf wedi cofrestru gydag ef (yn rhinwedd swydd y meddyg hwnnw fel 'porthgeidwad' ffurfiol gofal sylfaenol), a lle bo hynny'n briodol ar gyfer y claf. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gleifion sydd am gael gofal llygaid heb ei drefnu. Dylai'r offthalmolegydd roi gwybod i'r claf am y broses hon. Mae'n bosibl y bydd y claf yn gwrthwynebu i wybodaeth gael ei rhannu drwy'r broses hon, ac os felly dylai hynny gael ei nodi yng nghofnodion y claf.

Cleifion sy'n cael eu gweld gan offthalmolegydd mewn apwyntiad dilynol yng ngwasanaeth llygaid yr ysbyty: Dylid anfon gohebiaeth at y meddyg teulu y mae'r claf wedi cofrestru gydag ef (yn rhinwedd swydd y meddyg hwnnw fel y 'porthgeidwad'). Gyda chydsyniad y claf, dylid anfon copi hefyd at yr optometrydd sydd wedi ei enwebu ganddo (gan nad yw cleifion yn

cofrestru'n ffurfiol gydag optometrydd penodol), a lle bo hynny'n briodol ar gyfer y claf ei hunan. Dylid cadarnhau'r optometrydd sydd wedi ei enwebu gan y claf ar bob achlysur (gan fod cleifion yn gallu newid eu dewis optometrydd ar unrhyw adeg). Mae cydsyniad llafar y claf i wybodaeth gael ei rhannu â'i optometrydd yn cael ei gadarnhau drwy fod yr offthalmolegydd yn cofnodi enw'r optometrydd sydd wedi ei enwebu gan y claf yng nghofnodion y claf. Bydd y broses hon yn caniatáu i'r offthalmolegydd ymdrin ag unrhyw ohebiaeth yn briodol.

Mae optometryddion yn gallu helpu i sicrhau eu bod yn cael adborth drwy nodi eu henwau a'u manylion cyswllt ar y llythyr atgyfeirio bob amser.

*Mewn nifer bach o achosion, lle bo angen i ymarferydd meddygol (ee meddyg teulu mewn gofal sylfaenol) gymryd camau uniongyrchol, gellir cyfeirio'r ohebiaeth at yr ymarferydd meddygol (gan gyfeirio at y ffaith bod yr atgyfeiriad wedi dod yn wreiddiol o bractis optometrig). Dylid darparu'r cyngor a gwybodaeth glinigol berthnasol (ar gyfer yr ymarferydd meddygol), a dylid anfon copi neu ohebiaeth esboniadol arall at y claf a'r optometrydd sydd wedi gwneud yr atgyfeiriad.

GDPR a Deddf Diogelu Data 2018

Mae hyn yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r cynllun optio allan cenedlaethol ar gyfer data, sy'n cyd-fynd â'r rheolau arferol ar ddiogelu data

[1] y Fonesig Fiona Caldicott, The Information Governance Review, Mawrth 2013, tudalen 21 <https://www.gov.uk/government/publications/the-information-governance-review>

<https://www.rcophth.ac.uk/2015/03/sharing-patient-information-between-healthcare-professionals-a-joint-statement-from-the-royal-college-of-ophthalmologists-and-college-of-optometrists/>